Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Amrywiaeth mewn llywodraeth leol

Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

## Cefndir

**1.** Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i amrywiaeth mewn llywodraeth leol, cynhaliwyd dau grŵp ffocws ar-lein ddydd Iau, 11 Mai 2023.

**2.** Cafodd y cyfranwyr eu recriwtio drwy Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd pob un o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru, gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**3.** Roedd cyfansoddiad y cyfranwyr yn amrywio. Cafwyd cyfraniadau gan 11 chynghorydd ar draws pedwar o ranbarthau'r Senedd – Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, Canol De Cymru a Dwyrain De Cymru.

**4.** Roedd ymlyniad gwleidyddol y cyfranwyr hefyd yn amrywio, gyda chyfraniadau gan gynghorwyr y Ceidwadwyr, y Blaid Werdd, Annibynwyr, Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru.

**5.** Etholwyd pum cyfrannwr am y tro cyntaf yn 2017, gyda phump arall yn cael eu hethol am y tro cyntaf yn 2022. Etholwyd un cyfrannwr am y tro cyntaf yn ystod isetholiad yn 2021.

**6.** Diolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu.

**7.** Trafodwyd y materion canlynol gyda chyfranwyr.

## Amrywiaeth a chynnydd dros y pum mlynedd diwethaf

**8.** Roedd trafodaeth gychwynnol yn ystod y ddau grŵp ffocws yn canolbwyntio ar yr hyn y mae amrywiaeth yn ei olygu i gyfranwyr, yng nghyd-destun llywodraeth leol ac yn ehangach.

*". . . i mi nid yw amrywiaeth yn golygu gallu cynrychioli cymuned yn unig ond mae hefyd yn golygu peidio â chael unrhyw rwystrau i unrhyw un, a all fod yn weddol unigryw yn eu cymuned, rhag gallu camu ymlaen a bod yn rhan o'u gweinyddiaeth."*

***Grŵp ffocws 2, Sir Fynwy.***

*"Rwy'n meddwl mai rhan bwysig iawn o ran amrywiaeth a democratiaeth yw dweud, oes, mae'n rhaid i ni gynrychioli neu adlewyrchu ein cymunedau cyfan, ond mae'n rhaid i ni fod yn agored iawn i feddwl am y bobl hynny sydd â'r nodweddion llai cyffredin hynny a chadw meddwl agored a sicrhau nad ydynt yn cael eu hanghofio. Rwy'n meddwl bod hynny'n hynod bwysig – mae'n golygu bod â meddwl agored a bod yn oddefgar a hyrwyddo parch at amrywiaeth."*

***Grŵp ffocws 2, Conwy.***

**9.** Er bod y rhan fwyaf o'r cyfranwyr yn cydnabod bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, nid oedd sawl cyfrannwr yn teimlo bod cyfansoddiad cynghorwyr yn eu hawdurdod lleol yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

*"Nid yw cael cydbwysedd rhwng y rhywiau yn unig yn ddigon . . . mae angen amrywiaeth o brofiadau byw arnom. Nid oes gennym unrhyw bobl Ddu, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig ar ein cyngor sir. Ychydig iawn o gynghorwyr anabl agored sydd gennym a dim ond un cynghorydd LHDT agored. Rwy'n meddwl bod hynny'n wael iawn ac rwyf am weld ni'n gwneud llawer iawn gwell . . .  Mae angen i ni wneud llawer mwy o waith i ddangos bod yr holl wahanol bobl hyn o wahanol nodweddion gwarchodedig yn perthyn i'r siambr."*

***Grŵp ffocws 1, Sir Fynwy.***

*". . . mae'n holl bwysig bo ni fel cyngor, fel Cyngor Sir Gar, neu pob cyngor sydd gyda ni yng Nghymru yn adlewychu'r pobl sdd gyda ni yn y gymuned a fi yn teimlo yn y sir, da ni ddim fel cyngor yn adlewychu ein cymuned yn iawn . . . Does gyda ni ddim un person o liw yn ein cyngor. . . cyn yr etholiad diwetha', oedd dwy fenyw gyda ni o Lanelli o gefndir BAME. Does neb gyda ni nawr. Bach iawn o bobl*

> *ifanc sydd gyda ni a ma' hwnna'n rhywbeth fi'n credu ma' ishe i ni drafod achos da ni ddim yn tynnu ein pobl ifanc mewn i wleidyddiaeth. Yn bendant ddim i'r cyngor sir, a does neb gyda ni ar y cyngor sir sydd yn anabl."*
>
> *Grŵp ffocws 2, Sir Gaerfyrddin.*

**10.** Soniodd y cyfranwyr am gyfansoddiad cynghorwyr yn ardal eu hawdurdod lleol, gyda rhai yn esbonio bod mentrau i gynyddu amrywiaeth wedi bod yn effeithiol i raddau, ond yn credu bod lle i ddatblygu ymhellach.

> *"Mae wir wedi gwella o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn Sir Fynwy, heb os nac oni bai. Un rheswm arwyddocaol dros hynny yw oherwydd bod arweinydd y Toriaid ac arweinydd y grŵp Llafur yn cytuno y byddent yn gosod targed o 50% o fenywod ar gyfer y cyngor nesaf, ac fe wnaethon nhw sicrhau hynny. . . Mae'r ffaith bod gennym Gronfa 'Mynediad i Swydd Etholedig' sydd wedi cefnogi pobl anabl i gael swydd - rwyf wir o blaid y gronfa hon. Dim ond ar gyfer pobl anabl oedd y gronfa, ond hoffwn ei gweld yn cael ei ehangu i nodweddion gwarchodedig eraill o bosibl, oherwydd mae menywod yn wynebu mwy o rwystrau wrth sefyll ac os ydych chi'n fenyw anabl hefyd ac yn fenyw o liw, mae hynny hyd yn oed yn waeth."*
>
> *Grŵp ffocws 1, Sir Fynwy.*

## Rhwystrau rhag sefyll fel cynghorydd

**11.** Rhannodd cyfranwyr hanesion personol ac anecdotaidd o'r rhwystrau a brofwyd wrth sefyll etholiad. Gellir crynhoi'r rhwystrau hyn fel a ganlyn.

### Profiad byw

**12.** Roedd rhai cyfranwyr yn awyddus i bwysleisio, tra'n sicrhau bod unigolion â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hannog i sefyll etholiad, fod gan y rhai â phrofiad byw agweddau amhrisiadwy i'w rhannu, ond yn aml yn cael eu hanwybyddu.

**13.** Roedd trafodaeth ar yr angen i harneisio cyfraniadau'r rhai â phrofiad byw yn aml yn cydblethu â chydnabyddiaeth bod rhai dosbarthiadau cymdeithasol a'r rhai mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft, unigolion â chyflogaeth anhyblyg a/neu gyfrifoldebau gofalu) yn wynebu set unigryw o rwystrau i sefyll ar gyfer swydd etholedig.

*“. . . un peth nad ydym wedi siarad amdano yw dosbarth cymdeithasol a thlodi, a'r gallu i fforddio bod yn gynghorydd. Un o’r pethau sydd wedi fy syfrdanu i’n llwyr yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yw gelyniaeth rhai grwpiau yn y gymuned sy’n meddwl na ddylai cynghorwyr sir gael eu talu, ein bod ni i gyd yn ddiwerth ac os ydym am wneud y swydd, y dylai fod yn llafur cariad. . . Mae hwn yn fater pwysig iawn i ni gan fod aelod arall o’n grŵp Llafur wedi bod yn ofalwr rheng flaen yn gwneud gwaith sifft. Doedd hi wirioneddol methu gwneud hynny gyda’i gwaith fel cynghorydd, felly oherwydd y swm bach o gyflog a gawn, roedd hi’n gallu lleihau ei sifftiau a gweithio yn ystod y dydd yn unig, felly nid oedd wedi blino'n lân o hyd. Mae hi’n gaffaeliad anhygoel i’n grŵp Llafur ac i’r cyngor oherwydd ei phrofiad byw y mae’n ei gyfrannu i’r rôl, felly rwy’n meddwl bod dosbarth cymdeithasol a chyflog yn bethau pwysig iawn i ni ymchwilio iddynt.”*

*Grŵp ffocws 1, Conwy.*

*“Rwy’n meddwl bod y system wleidyddol yn sicr yn croesawu dosbarth cymdeithasol penodol, ac yn ei gwneud yn haws, tra bod llawer mwy o’r boblogaeth sydd fwy na thebyg yn methu fforddio gwneud y nifer o oriau gwirfoddol sydd eu hangen arnoch i gael eich ethol oherwydd cyfrifoldebau gofalu ac ati, nid ydynt yn rhoi eu hunain ymlaen. . . Buom yn siarad am leiafrifoedd ethnig, pobl ag anableddau a phoblogaethau mudol; yn syml, ni allant fforddio’r amser fyddai ei angen er mwyn ymgyrchu. Mae’n ddewis rhwng rhoi amser gwirfoddol a rhoi bwyd ar blât i’r teulu.”*

*Grŵp ffocws 1, Caerdydd.*

*“Gydag ymrwymiadau gwaith mae yna fater amrywiaeth yma. . . os ydych chi’n dod o sefyllfa neu alwedigaeth fwy breintiedig lle mae gennych hyblygrwydd i weithio’n rhan-amser neu i fod yn hyblyg yn eich gwaith, mae hynny’n beth da. Nid dim ond rhan-amser achos mae'n rhaid i chi fod yn hyblyg yn eich oriau gan fod cyfarfodydd yn digwydd drwy’r wythnos i gyd. . . ond os ydych chi mewn rôl lai proffesiynol ac os oes angen mwy o incwm ar eich teulu, yna mewn gwirionedd nid ydych chi ar gael gymaint i sefyll i fod yn gynghorydd ac rwy’n meddwl bod hynny’n broblem go iawn.”*

*Grŵp ffocws 2, Sir Fynwy.*

### Cam-drin ar y cyfryngau cymdeithasol

**14.** Trafodwyd effaith cam-drin ar y cyfryngau cymdeithasol ar gynghorwyr a'r rhai sy'n ystyried sefyll etholiad yn fanwl yn ystod grŵp ffocws 2. Oherwydd cyfyngiadau amser, ni thrafodwyd hyn i'r un graddau yn ystod grŵp ffocws 1, er y cafwyd un cyfraniad ysgrifenedig dderbyn gan gyfrannwr dros e-bost.

> *"Un o'r pethau sy'n rhwystr penodol i fenywod yn fy marn i yw cam-drin ar-lein ac rydych chi'n gwybod os ydych chi'n rhoi eich hun i fyny ar gyfer y rôl hon neu unrhyw rôl, rydych chi'n agor eich hun i negeseuon negyddol iawn ar Twitter ar y gorau ac, ar y gwaethaf, bygythiadau un erbyn eu bywydau. Rwy'n credu, nes yr ymdrinnir â'r mater hwn, fe fyddwch chi'n dal i gael pobl yn cwestiynu, meddwl yn galed iawn, menywod yn arbennig, ac mae'n waeth i fenywod anabl a menywod o liw. A chi'n mynd i gael eich teulu yn eich cwestiynu - wyt ti'n siŵr dy fod eisiau gwneud hyn? Mae hynny'n rhwystr sylweddol nad ydw i'n meddwl bod neb wedi llwyddo i'w ymdrin ag ef eto."*
>
> *Grŵp ffocws 1, Sir Fynwy.*
>
> *"Mae'n debyg bod y risg o gael eich trolio ar y cyfryngau cymdeithasol yn troi pobl i ffwrdd ond rwy'n ofni fy mod yn meddwl ei fod yn rhywbeth sydd bob amser yn mynd i ddigwydd, ac fe fydd yn digwydd cyn belled â bod y cyfryngau cymdeithasol ar gael y gall pobl eu defnyddio."*
>
> *Grŵp ffocws 2, Conwy*

### Denu cynghorwyr ifanc

**15.** Bu nifer o gyfranwyr yn ystod y ddau grŵp ffocws yn trafod yr angen i ddenu demograffeg iau o gynghorwyr, ond eglurodd fod materion yn ymwneud â thâl a chyflogaeth yn aml yn heriol i bobl iau sy'n ystyried sefyll etholiad.

> *"Dydw i ddim yn meddwl fy mod i wedi profi unrhyw rwystrau penodol. Yn anecdotaidd, ond mae hyn yn digwydd llai a llai wrth i amser fynd heibio, rwy'n teimlo efallai y byddaf yn gwneud cyfraniadau sy'n cael eu diystyru neu nad ydynt yn cael eu cymryd o ddifrif oherwydd fy mod yn ifanc."*

*Grŵp ffocws 2, Conwy.*

*“Rydw i'n meddwl o ran pobl ifanc, y tâl - mae'n rhaid i chi weithio. Dydych chi byth yn mynd i ennill digon o arian fel cynghorydd sir i roi'r gorau i'ch swydd a dwi'n meddwl mai dyna'r broblem gyda phobl ifanc a dyna pam wnes i ddim gwneud hynny nes bod fy merched wedi mynd drwy'r brifysgol. . . Doeddwn i ddim mewn sefyllfa i sefyll fel cynghorydd cyn hynny . . . felly rwy’n meddwl bod hynny’n rhywbeth y mae angen inni roi sylw iddo rywbryd. Os ydych chi eisiau pobl ifanc, a bod gennych ddemograffeg iau o fewn y cyngor yna mae'n rhaid i ni rywsut – wn i ddim . . . dyw pobl ddim eisiau talu cynghorwyr ac mae hynny’n iawn ond wedyn dim ond pobl o oedran arbennig y cewch chi wedyn fydd yn gallu gwneud y swydd.”*

*Grŵp ffocws 2, Sir Gaerfyrddin.*

*“Fe fyddai’n helpu ond rwy’n meddwl ei fod yn anodd iawn yn wleidyddol felly dydw i ddim yn meddwl y byddwn i o blaid mwy o arian ond mae yna broblem o ran sut y gallwn ni wneud hyn i weithio i bobl ifanc oherwydd yn amlwg efallai nad ydyn nhw’n cael y cyflog, ac efallai y bydd angen iddyn nhw gael swyddi eraill, ond maen nhw hefyd yn cael datblygiad gyrfa o bosibl felly mae’n rhaid edrych ar y buddion anariannol eraill y gallent fod yn eu cael.”*

*Grŵp ffocws 2, Sir Fynwy.*

**Cefnogaeth i gynghorwyr annibynnol**

**16.** Trafodwyd rôl cynghorwyr annibynnol hefyd, gydag un cynghorydd annibynnol yn egluro bod lefel y gefnogaeth, yn enwedig wrth gael eu hethol, yn aml yn ddiffygiol.

*“Ddim yn gwybod digon beth oedd y rôl achos rwy’n annibynnol a does gen i ddim plaid y tu ôl i mi i helpu. Hysbysebu, cerdded o gwmpas a dosbarthu taflenni, cael eu hargraffu ac yn cael eu gwneud gen i ac yn cael eu talu gen i. Roeddwn i’n ffodus bod cyn-gynghorydd wedi fy helpu ychydig gan ei fod yn ymddeol. Rwy’n dyslecsig ac nid oeddwn yn teimlo fy mod wedi cael llawer o help gan y cyngor ei hun. . .  Byddai pecyn gwell o’r hyn y mae’r rôl yn ei olygu yn syniad da oherwydd os ydych chi’n cyrraedd heb lawer o syniad, yna mae’n anodd.”*

> *Grŵp ffocws 1, Powys.*
>
> *“Rwyf wedi meddwl bod yn meddwl llawer yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yma, sut mae cynghorwyr annibynnol yn ymdopi oherwydd fy rhwydwaith cymorth yw fy nheulu ond hefyd fy mhlaid. Byddai’n anodd iawn i mi fod wedi mynd trwy’r profiad dysgu mawr hwn heb eu cefnogaeth a chyngor gan bobl â phrofiad.”*
>
> *Grŵp ffocws 1, Conwy.*

### Ymwybyddiaeth

**17.** Esboniodd rhai cyfranwyr fod diffyg ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd ynghylch cyfrifoldebau cynghorwyr yn aml yn cyfrannu at gamsyniadau am y rôl, a oedd yn negyddol ar y cyfan.

> *“I fi, rwy’n meddwl bod y rhwystrau mwyaf yn ymwneud â chanfyddiadau ac, yn fy marn i, dwi’n credu bod dau faes lle gellir helpu hynny. Un maes mewn gwirionedd yw pe bai gan y cyhoedd well dealltwriaeth o'r hyn y mae cynghorwyr yn ei wneud a beth yw rolau a chyfrifoldebau cynghorwyr, oherwydd mae lefel addysg ddinesig yn y wlad hon yn warthus ac ychydig iawn o syniad sydd gan bobl. Felly, rwy'n meddwl pe bai mwy o broffil, mwy o ddealltwriaeth, mwy o amlygrwydd o'r hyn y mae cynghorwyr yn ei wneud, byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.*
>
> *Ac yna edrychwn ni ar amrywiaeth, mae angen mwy o amlygrwydd i gynghorwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol . . . fel bod pobl yn gallu gweld eu hunain mewn siambr cyngor yn rhywle a meddwl, ‘ie iawn, mae'r person yna fel fi.’ P’un a yw hynny oherwydd eu hethnigrwydd, eu rhyw neu eu hunaniaeth o ran rhywedd, neu eu gallu neu nodweddion corfforol, yna gallai hynny hefyd eu hannog i feddwl ‘ie, rwy’n gweld fy hun yn gwneud y rôl yna.”*
>
> *Grŵp ffocws 2, Sir Fynwy.*

### Atebion

**18.** Trafododd y cyfranwyr atebion posibl i rai o’r rhwystrau a godwyd. Roedd lefel y gefnogaeth ar gyfer pob un o’r atebion hyn yn amrywio ymhlith y cyfranwyr.

## Rhaglenni mentora a'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig

**19.** Rhannodd cyfranwyr farn gadarnhaol ar y cyfan am fentrau a sefydlwyd eisoes i hyrwyddo a galluogi mwy o amrywiaeth ymhlith y rhai sy'n sefyll etholiadau. Fodd bynnag, roedd rhai'n awyddus i bwysleisio mai dim ond fel rhan o gyfres o fentrau i liniaru rhwystrau y gall y cynlluniau hyn fod yn effeithiol, ac ni ddylid eu hystyried yn ateb i bob problem ar gyfer datrys yr holl faterion sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth mewn llywodraeth leol.

> *"Yn bersonol, mae rhaglenni mentora wedi bod o gymorth mawr i mi. . . Ond dim ond hyn a hyn y gall rhaglenni mentora ei wneud. Gallan nhw roi pethau yn yr arfaeth, ond efallai y bydd menyw yn mynd ar raglen fentora ac yna 5 neu 6 mlynedd yn ddiweddarach yn cael ei hargyhoeddi i sefyll. Dyw e ddim yn ateb syml. Fydd e ddim yn gwneud i bawb sefyll yn syth. Efallai y bydd eu hamgylchiadau yn eu hatal."*
>
> *Grŵp ffocws 1, Sir Fynwy.*

**20.** Wrth drafod y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig, datgelodd rhai cyfranwyr nad oeddent yn ymwybodol o'r Gronfa a galw am ei hyrwyddo ymhellach.

> *"Mae yna waith i'w wneud yn y cyngor sir fel bod pobol yn gwybod bod y rhaglenni yma ar gael i bobol eu defnyddio, achos doeddwn i ddim yn gwybod amdanyn nhw."*
>
> *Grŵp ffocws 2, Sir Gaerfyrddin.*
>
> *"Dydw i ddim yn ymwybodol o unrhyw un sydd wedi gwneud cais amdano. Dwi ddim yn gwybod ai anwybodaeth ar fy rhan i yw hyn, ond dwi ddim yn ymwybodol o unrhyw un sydd wedi cael budd o'r gronfa."*
>
> *Grŵp ffocws 2, Conwy.*

## Cwotâu rhywedd

**21.** Cynigiwyd cwotâu rhywedd fel ateb gan rai cyfranwyr, er nad oedd cefnogaeth gan bawb, gydag un cyfrannwr yn rhannu barn i'r gwrthwyneb.

> *"Rwy'n meddwl mai un o'r ffyrdd pwysicaf y gallwn helpu i gael cynghorau a Senedd mwy amrywiol yw cael cwotâu rhywedd. Mae cant o wledydd ledled y byd yn defnyddio cwotâu rhywedd ac rwy'n credu'n gryf ynddynt. Mae'r holl wledydd hynny ar y lefel uchaf o ran cynrychiolaeth menywod. . . Rwy'n meddwl y dylai fod gan bob plaid wleidyddol strategaethau amrywiaeth cryf iawn a dylid eu gosod cyn etholiad. Y rheswm rwy'n dweud hyn, a'r rheswm rwy'n sôn am gwotâu yw oherwydd bod rhai pleidiau gwleidyddol yn llawer gwell nag eraill am hyrwyddo menywod a dewis menywod. . ."*
>
> *Grŵp ffocws 1, Sir Fynwy.*
>
> *"Yn bersonol dwi ddim yn meddwl mai cwotâu yw'r ffordd . . . Doeddwn i ddim eisiau bod yn rhyw ymarfer blwch ticio, roeddwn i eisiau bod yno ar sail fy nheilyngdod fy hun a doeddwn i ddim eisiau i neb ddweud mai'r unig reswm gefais i'r swydd yw oherwydd merched ar y rhestrau byr. Nid dyna oeddwn i eisiau ei hyrwyddo. Mae'n rhaid cael y bobl iawn. Allwch chi ddim bod yno dim ond oherwydd eich bod yn fenyw neu oherwydd lliw eich croen. . . Nid yw cael y bobl anghywir mewn swyddi yn gwneud unrhyw ffafrau i neb. Nid ydynt yn portreadu'r delweddau cadarnhaol hynny o'r cymunedau hynny. Felly mae'n bwysig ein bod ni'n cael y bobl iawn ond y prif beth yw annog pobl i sefyll."*
>
> *Grŵp ffocws 1, Caerdydd.*

## Rhannu swydd

**22.** Trafodwyd rhannu swydd yn gadarnhaol, yn amodol ar rywfaint o addasu, yn ystod y ddau grŵp ffocws.

> *"Y peth olaf yr hoffwn ei grybwyll gan fy mod yn rhannu swydd yn fy rôl cabinet yw bod rhannu swydd wir yn beth da ar lefel llywodraeth leol ac mae wedi fy ngalluogi i fod yn aelod cabinet a chael rhywfaint o brofiad, ac rwy'n gynghorydd newydd sbon felly mae'n dda iawn i rannu swydd. Rydyn ni'n dysgu oddi wrth ein gilydd ac mae'n gwneud y rôl yn haws ei rheoli os ydych chi'n gweithio hefyd. Felly rwy'n credu'n gryf mewn rhannu swydd. Ond un broblem gyda rhannu swydd yw fy mod yn meddwl weithiau nad yw eich cydweithwyr yn y cabinet yn sylweddoli eich bod yn rhannu swydd a*

> *dylai hynny olygu nad oes rhaid i mi fynd i bob un cyfarfod oherwydd rydyn ni i fod i allu rhannu'r cyfrifoldebau hynny a chyfathrebu â'n gilydd."*
>
> *Grŵp ffocws 1, Sir Fynwy*

### Cyfarfodydd hybrid

**23.** Roedd y cyfranwyr yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y manteision sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd hybrid, gan esbonio ei fod yn aml yn caniatáu i'r rhai â gofynion hygyrchedd a chyfrifoldebau gofalu gymryd rhan. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhai cyfranwyr yr angen i fod yn ofalus, yn enwedig o ran ymddygiad yn ystod cyfarfodydd hybrid.

> *"Dydw i ddim yn gwadu'r ffaith nad yw hybrid weithiau mor gynhyrchiol â bod mewn ystafell, ond mae'n dal i ganiatáu i bobl sydd â chyfrifoldeb gofalu, sydd â phlant ifanc, os ydyn nhw wir eisiau bod yn rhan o'r cyfarfod fel y gallant ymuno hefyd."*
>
> *Grŵp ffocws 2, Caerdydd.*
>
> *"Mae gen i ddwy farn ynghylch cyfarfodydd hybrid ond pe bai'n rhaid mi ddweud a ydw i o'u plaid, mae'n debyg fy mod wedi elwa o'r gallu i ymuno â chyfarfodydd yn uniongyrchol. Rwy'n credu mai'r pryderon sydd gennyf yw pryderon ynghylch ymddygiad mewn cyfarfodydd hybrid ac mae hyn yn siarad o'm profiad personol - pan ddisgwylir i chi fynd i siambr mae pobl yn tueddu i gadw at lefelau penodol o ymddygiad. Yr hyn rwy'n ei weld yw, pryd bynnag y byddwn yn cael pobl i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein, mae'r lefelau ymddygiad yn ymddangos yn is na'r hyn y dylid ei ddisgwyl ac rwy'n meddwl bod hynny wir yn siom. . ."*
>
> *Grŵp ffocws 2, Conwy.*

### Rhwystrau i ddilyniant gyrfa wleidyddol

**24.** Bu sawl cyfrannwr yn trafod y rhwystrau y maent wedi'u hwynebu hyd yma yn ystod eu gyrfaoedd gwleidyddol, gyda rhai cyfranwyr yn egluro bod herio rhai normau yn bwysig os ydym am annog mwy o amrywiaeth.

*“Mae bod yn fenyw o liw, rydych chi’n dod ar draws safbwyntiau ystrydebol yn aml, ac rydych chi'n rhyw fath o frwydro yn erbyn y pethau hynny, a gallwch chi deimlo’r disgwyliadau isel sydd ohonoch chi gan eraill. Mae'n rhoi pleser mawr i mi eu profi’n anghywir. . . Mae rhai systemau wedi bod ar waith ers canrifoedd ac mae angen dipyn o berswadio er mwyn eu newid i’w siapio, i fod yn gynrychioliadol o’r gymuned rydyn ni’n ei chynrychioli nawr.”*

*Grŵp ffocws 1, Caerdydd.*

*“Rydyn ni’n dal i gael gweddïau cyn cyfarfodydd llawn y cyngor. Drwy bob math o wleidyddiaeth mae gennym rôl o’r enw chwip. I rywun sydd â gorffennol gwladychol ac yn aelod o grwpiau gwleidyddol du; ydyn ni wir yn mynd i gael ein chwipio? Mae hwn yn bwynt gwleidyddol iawn am wn i. Mae'n dod â chysylltiadau â chaethwasiaeth yn ôl i rai ohonom. Yr iaith, gweddïau, diwylliant, y cadeirydd, ‘chairman’ yn Saesneg - dwi hyd yn oed wedi cael fy ngalw’n “madam chairman”. Rwy’n ei herio ac yn ei alw allan ar bob cyfle.”*

*Grŵp ffocws 1, Conwy.*